

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 11eg Mehefin, 2019 am 7.30pm yn Neuadd Felinfach.

PRESENNOL

Cynghorwyr : Cynghorwyr Alan Henson (Cadeirydd), Haf Hughes, Lynford Thomas, Johnny Davies, Daniel Evans, Lyn Williams, Glyn Davies, Hywel Ifans, Gerwyn Owen

1. **YMDDIHEURIADAU** Y Cyng. Harry Williams

2. **PERSONOL** Dim i'w gofnodi.

3. DATGELU BUDDION PERSONOL

- 1) Y Cyng. Glyn Davies, Cynllunio, Codi Shed yn Glanwern
- 2) Y Cyng Haf Hughes, Ceisiadau Ariannol, Eisteddfod Felinfach
- 3) Y Cyng. Lynford Thomas, Ceisiadau Ariannol, Eisteddfod Genedlaethol 2020
- 4) Y Cyng. Johnny Davies, Ceisiadau Ariannol, Age Cymru (Ceredigion)
- 5) Y Cyng. Lyn Williams, Ceisiadau Ariannol, Pwyllgor Henoed Cribyn
- 6) Y Cyng. Alan Henson, Ceisiadau Ariannol, Pwyllgor Henoed Cribyn

4. COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y 14eg Mai, 2019 yn gywir. Cynigiwyd gan Y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan Y Cyng. Lynford Thomas.

5. MATERION YN CODI

9.i. Biniau Baw Cwn Dihewyd. Derbyniwyd gwybodaeth gan y Cyng. Lynford Thomas yn dilyn llythyr a dderbyniodd wrth y Cyngor Sir yn esbonio bod y bin wrth yr arosfa bws yn un ar gyfer baw cwn hefyd, felly does dim cynlluniau i osod biniau eraill yn y pentre'.

6. ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

Cafwyd adroddiad gan Y Cyng. Lynford Thomas. Bu yng nghyfarfod sefydlu Cadeirydd newydd y Cyngor Sir, sef Y Cyng. Peter Davies, Llandysul. Yn dilyn cyfarfod pellach am Ysgol Ardal Dyffryn Aeron, dywedodd fod yna ymgynghoriad arall wedi dechrau ers Mehefin 5ed oherwydd bod dau opsiwn arall wedi dod i law ar gyfer eu hystyried. Angodd pawb i ymateb i'r ddogfen sydd eisoes wedi cael eu dosbarthu i'r Cynghorwyr. Bydd y mater yn cael ei drafod ar gyfer ystyriaeth y Cyngor yng nghyfarfod mis Gorffennaf. Dyddiad cau yw'r 16eg o Orffennaf.

7. CYLLID

- I. **Adroddiad yr Archwilydd Mewnol.** Trafodwyd yr adroddiad a thynnwyd sylw at yr argymhelliad penodol o fewn yr adroddiad i sylw'r Cyngor sef bod angen trafodaeth am wariant y praesept ym mis Medi ac ym mis Rhagfyr ac i gynnig esboniad llawn am yr hyn sy'n cael ei hawlio yng nghyfarfod mis Rhagfyr. **Derbyniwyd** yr adroddiad yn unfrydol a nododd Y Cyng. Lynford Thomas ei werthfawrogiad ar ran y Cyngor am

adroddiad gynhwysfawr Mr. Gwyn Jones ac am ei arweiniad wrth sicrhau bod y Cyngor yn dryloyw yn ei weithgareddau.

- II. **Datganiad Blynyddol.** Trafodwyd y datganiad gan ategu'r pwynt am y praesept yn 7.i uchod gan bod gweddiill o £3060.31 yn y banc ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. **Penderfynwyd** derbyn Datganiad Blynyddol 2017-2018. Cynigiwyd gan y gan Y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan Y Cyng. Hywel Ifans. **Derbyniwyd yn unfrydol.**

III. **Ceisiadau Ariannol**

- a) Cynigiodd Y Cyng. Glyn Davies rhoi yr un swm eleni i'r sefydliadau a dderbyniodd nawdd y llynedd. Eiliwyd gan Y Cyng. Gerwyn Owen a **derbyniwyd yn unfrydol** sef i'r canlynol:

BOPATH	£30
CYNGOR AR BOPETH	£35
AMBIWLANS AWYR I BLANT	£50
TEENAGE CANCER TRUST	£75
GOFAL MEWN GALAR	£50
EISTEDDFOD LLANGOLLEN	£25
EISTEDDFOD FELINFACH	£125
EISTEDDFOD DIHEWYD	£125

- b) Trafodwyd y ceisiadau newydd isod

SEFYDLIAD	SWM	CYNIGYDD AC EILYDD
AELWYD URDD CRIBYN	£50	Cyng. J. Davies / Cyng. D. Evans
TREIALON CWN DEFAID 2020	£50	Cyng. G. Davies / Cyng. Gerwyn Owen
URDD GOBATH CYMRU CEREDIGION	£100	Cyng. J. Davies / Cyng. L. Thomas
AGE CYMRU (CEREDIGION)	£75	Cyng. H. Ifans / Cyng. L. Thomas

- c) Derbyniwyd cais am nawdd gan **Eisteddfod Genedlaethol Tregaron 2020.** Cyfeiriwyd at y drafodaeth a gafwyd am Praesept 2019-2020 Rhagfyr 2018 (7.iv) yn cyfeirio at y ffaith y byddai angen cefnogaeth ar yr Eisteddfod yn ystod y flwyddyn ganlynol. Yn sgil y drafodaeth honno, ac yn dilyn trafodaeth bellach am bwysigrwydd ymweliad yr Eisteddfod â Cheredigion a'r ffaith na fydd yn ymweld â'r Sir am flynyddoedd eto, cynigiwyd swm o £1,000 gan y Cyng. Haf Hughes ac eiliwyd gan Y Cyng. Davies. **Derbyniwyd yn unfrydol.** Cadarnhawyd y byddai'r cyfraniad hwn yn cael ei gyfri' yn nharged ardal Llanfihangel Ystrad o £5,000.

8. GOHEBIAETH

i. **Pwyllgor Henoed Cribyn.** Cais am nawdd ar gyfer dathliadau 60 mlynedd Carnifal a Sports pentre' Cribyn. Gan fod y dathliadau'n digwydd ym mis Gorffennaf eleni, cytunwyd yn unfrydol i drafod y mater yn y cyfarfod hwn. Bwriad y Pwyllgor yw defnyddio'r nawdd ar gyfer noddï rhaglen ddathlu. Oherwydd ei fod yn garreg filltir bwysig yn hanes y pentre' cynigiwyd swm o £100 gan y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan Y Cyng. Lynford Thomas.
Cytunwyd yn unfrydol.

ii. Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Bwyllgor Eisteddfod Pantyfedwen Llanbed am y rhodd o £20.00

iii. Derbyniwyd gwahoddiad gan yr Eisteddfod Genedlaethol i anfon cynrychiolwyr i'r Seremoni Cyhoeddi ar y 29ain o Fehefin yn Aberteifi. Enwebwyd y Cyng. Lynford Thomas.

iv. Cyfarfod Blynnyddol Un Llais Cymru. Gwahoddiad i anfon cynigion am faterion cenedlaethol i'w trafod yn y Cyfarfod Cyffredinol a gynhelir ar y 5ed o Hydref. Cynigiodd Y Cyng. Hywel Ifans y cynnig isod:

Y dylid sicrhau unffurfiaeth genedlaethol ar gyfer arwyddion ffyrdd yng Nghymru lle mae'r Gymraeg yn gyntaf ac i ystyried gwahaniaethu gweledol o ran iaith e.e. italic, lliw, print trwm.

Cytunwyd yn unfrydol â'r cynnig, a bydd y Clerc yn ei anfon ymlaen at Un Llais Cymru.

9. CYNLLUNIO

- I. **A190313. Dŵr Cymru.** Pont bibell newydd a mynediad newydd i gerddwyr, gyferbyn â gorsaf bwmpio SA48 8AE. Yn dilyn trafodaeth, **Nid oedd unrhyw wrthwynebiad.**
- II. **A190180 Glanwern, Felinfach.** Codi shed sulwair. **Cefnogwyd yn unfrydol** yn dilyn cynnig gan Y Cyng. Lynford Thomas ac eiliwyd gan Y Cyng. Gerwyn Owen.

10. UNRHYW FATER ARALL

- I. **Ffynnonoer.** Cododd Y Cyng. Glyn Davies bryderon am y tyllau ar yr hewl yn Ffynnonoer unwaith eto (Hydref 2018 10.ii) a gwnaed cais am lanhau'r gwteri ac adfer yr hewl cyn gynted â phosib, Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu ag Adran y Priffyrdd.
- II. **Glanafon, Cribyn.** Tynnwyd sylw unwaith eto at y perygl o lithro ar hewl Glanafon (Rhagyr 2018, 10.ii.b.) a'r ffaith nad yw'r arwyddion rhybudd yn cael llonydd ac yn amal heb fod yn amlwg i yrrwyr. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu ag Adran y Priffyrdd.
- III. Cafodd Y Cyng. Thomas ymholiad trwy Age Cymru (Ceredigion) am wybodaeth am *1st Responder* yn ardal Felinfach. Gan nad oes un yn yr ardal, gofynwyd i ni drafod y mater ac i gynnig enwau unrhyw un o'r dalgylch a fyddai a diddordeb mewn hyfforddi i wneud y gwaith hwn.

- IV. **Gwefan.** Cafwyd gwybodaeth gan Elfed Jenkins bod y dystysgrif bresennol yn dod i ben. Derbyniwyd amcanbris o £250 ar gyfer trosglwyddo i system Wordpress. Yn dilyn trafodaeth am bwysigrwydd cael gwefan weithredol a gan bod y Clerc yn gyfarwydd â Wordpress penderfynwyd cysylltu ag Elfed Jenkins i ofyn iddo i fwrw 'mlaen â'r newidiadau.

11. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF :

2il o Orffennaf, 2019 am 7.30 yn Ysgol Cribyn (fel a gytunwyd yng nghyfarfod Mai 2019)